



Advertisement for two Independent Co-opted Members of the South Wales Police and Crime Panel

Hysbyseb am ddau Aelod Cyfetholedig Annibynnol ar gyfer Panel yr Heddlu a Throsedd De Cymru

The South Wales Police and Crime Panel (the Panel) is looking for two committed and enthusiastic individuals to join the Panel as Independent Co-opted Members from November 2024 for a four year term.

Mae Panel yr Heddlu a Throsedd De Cymru (y Panel) yn chwilio am unigolion ymroddedig a brwdfrydig i ymuno â'r Panel fel Aelodau Cyfetholedig Annibynnol i fis Tachwedd 2024 am gyfnod o bedair blynedd.

The Panel is made up of ten Councillors from the seven local authorities covering the South Wales Police force area (Bridgend, Cardiff, Neath Port Talbot, Merthyr Tydfil, Rhondda Cynon Taf, Swansea, and the Vale of Glamorgan) plus two Independent Co-opted Members.

Mae'r Panel yn cynnwys deg o Gynghorwyr o'r saith awdurdod lleol sy'n cynrychioli ardal Heddlu De Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg) a dau Aelod Cyfetholedig Annibynnol.

The role of a Panel Member is an important and demanding one and Members are expected to hold high standards of personal integrity at all times and to be respectful of others. Applicants must live within the South Wales Police Force area.

Mae rôl Aelod o'r Panel yn un bwysig a heriol a disgwylir i Aelodau feddu ar safonau uchel o ran integriti personol ar bob achlysur ac i barchu eraill. Rhaid bod ymgeiswyr yn byw yn ardal Heddlu De Cymru.

Each police force area has a Police and Crime Panel to offer both support and challenge in relation to the Police and Crime Commissioner's (the PCC) decision-making and actions. The PCC is required to consult with the Panel on the strategic plan for local policing, as well as the level of council tax needed to support the local policing budget, and the appointment of a Chief Constable. Independent Co-opted Members, through their knowledge and experience, are expected to enhance the Panel's ability to play its role effectively.

Mae Panel yr Heddlu a Throsedd gan bob ardal o'r heddlu er mwyn cynnig cymorth a her mewn perthynas â phenderfyniadau a gweithredoedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Mae'n ofynnol bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ymgynghori â'r Panel am y cynllun strategol ar gyfer heddlua lleol, yn ogystal â lefel y dreth yngor sydd ei hangen i gefnogi cyllideb heddlua lleol, a phenodi Prif Gwnstabl. Disgwylir i Aelodau Cyfetholedig Annibynnol, drwy eu gwybodaeth a'u profiad, wella gallu'r Panel i chwarae ei rôl yn effeithiol.

The commitment required from an Independent Co-opted Member will depend upon the work programme approved by the Panel, but typically will average 5 meetings per year (May to April). Meetings are held during normal office hours and are held in Merthyr Tydfil, but may also be held at varying locations throughout the South Wales Police force area. There is no salary for the role, but an allowance is payable.

Bydd yr ymrwymiad gofynnol oddi wrth Aelod Cyfetholedig Annibynnol yn dibynnu ar y rhaglen waith a gaiff ei chymeradwyo gan y Panel, ond yn nodweddiadol bydd cyfartaledd o bump o gyfarfodydd y flwyddyn (Mai i Ebrill). Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn ystod oriau swyddfa arferol yn Merthyr Tudful, ond mae'n bosibl y byddant yn cael eu cynnal mewn lleoliadau amrywiol ledled ardal De Cymru. Does dim cyflog am y rôl, ond mae lwfans yn daladwy.

The deadline for applications is **5pm on Friday 9th August 2024**. It is anticipated that interviews for shortlisted candidates will be conducted during week commencing 2nd September 2024, in Merthyr Tydfil.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **5pm ddydd Gwener 9 Awst 2024**. Rhagwelir y bydd cyfweiliadau ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 2 Medi 2024 yn Merthyr Tudful.

To obtain an application pack or for more information please visit <http://www.merthyr.gov.uk/council/councillors-and-committees/south-wales-police-and-crime-panel/>. Alternatively contact Simon Jones at simon.jones@merthyr.gov.uk or Merthyr Tydfil County Borough Council, Civic Centre, Castle Street, Merthyr Tydfil, CF47 8AN – tel 01685 725000

Er mwyn cael pecyn ymgeisio neu am ragor o wybodaeth ewch i <http://www.merthyr.gov.uk/council/councillors-and-committees/south-wales-police-and-crime-panel/>. Neu cysylltwch â Simon Jones yn simon.jones@merthyr.gov.uk yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN – tel 01685 725000

Merthyr Tydfil County Borough Council is the host local Authority for the South Wales Police and Crime Panel.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r Awdurdod Lleol sy'n derbyn Heddlu a Throsedd De Cymru